# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 17 Mai 2005]

**Dydd Mawrth 24 Mai a dydd Mercher 25 Mai 2005**

***Toriad 30 Mai hyd 3 Mehefin 2005***

**Dydd Mawrth 7 Mehefin a dydd Mercher 8 Mehefin 2005**

**Dydd Mawrth 14 Mehefin a dydd Mercher 15 Mehefin 2005**

## Dydd Mawrth 24 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Anweithgarwch Economaidd (30 munud)**

  Trafodwyd Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Anweithgarwch Economaidd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 19 Ebrill.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 and 25.14 The Plant Protection Products Regulations 2005 (1 munud)**

  These joint Regulations will revoke and replace the Plant Protection Products Regulations 2003 (as amended), which implement in England and Wales Council Directive 91/414/EEC concerning the placing of plant protection products on the market.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25,25.13 and 25.14 The Environmental Impact Assessment (Land Drainage Improvement Works) (Amendment) Regulations 2005 (1 munud )**

  These joint Regulations amend the Environmental Impact Assessment (Land Drainage Improvement Works) Regulations 1999 (S I 1999 No. 1783) to bring them into line with recent European legislation. The purpose of the Regulations is to transpose the requirements of EC Directive 2003/35/EC of the European Parliament and of the Council of 26 May 2003 providing for public participation in respect of the drawing up of certain plans and programmes relating to the environment and amending with regard to public participation and access to justice Council Directives 85/337/EEC and 96/61/EEC (The Public Participation Directive).

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o ganlyniad i ddiwygiadau sy'n gysylltiedig â Deunydd Risg Penodedig yn Rheoliad Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) y CE.

- **Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn trosi ac yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 98/728/EC, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau godi tâl ar fusnesau porthiant am y gost o gymeradwyo eu safleoedd.

- **Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005**

  Mae'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau yn Neddf Addysg 2002 i rym er mwyn parhau i wireddu'r cynigion yn y ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu', dod â darpariaethau eraill yn y Ddeddf sy'n berthnasol i Gymru i rym, a gwneud y darpariaethau trosiannol angenrheidiol sy'n ymwneud â chylchoedd derbyn ac apelau.

- **Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005**

  Bydd y Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3)

(Cymru) 1997 (fel y'i diwygiwyd), sy'n pennu'r trefniadau asesu ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae'n cael gwared ar y gofyniad statudol i weinyddu profion y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn pynciau craidd.

- **Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005**

  Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau presennol i gael gwared ar y cyfeiriadau at brofion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 a bydd yn nodi'n fwy manwl y defnydd a wneir o ganlyniadau asesiadau'r athrawon.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Cyflwynodd Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fframwaith derbyn newydd. Ei nod oedd gwneud y trefniadau a'r gweithdrefnau derbyn yn fwy clir, teg a gwrthrychol ac fel bod modd cwrdd â dewisiadau'r rhieni hyd y gellir. Yng Nghymru, cafodd Codau Ymarfer statudol ar Dderbyn i Ysgolion ac Apelau Derbyn i Ysgolion eu cyflwyno ym mis Ebrill 1999 a mis Medi 1999. Mae Deddf Addysg 2002 yn diwygio Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn y fath fodd fel bod y trefniadau manwl ar gyfer apelau derbyn, oedd i'w cael yn wreiddiol yn Atodlenni 24 a 25 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau. Yn y Rheoliadau mae trefniadau ar gyfer panelau apêl y mae'n ofynnol iddynt gael eu sefydlu gan awdurdodau addysg lleol, corff llywodraethu neu lle mae trefniadau ar y cyd yn cael eu gwneud gan ddau gorff llywodraethu neu ragor, neu'r awdurdod lleol ac un neu ragor o gyrff llywodraethu.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn codi'r gwaharddiad ar gynhyrchu colagen (protein ffibrog sy'n dod o groen, cartilag, asgwrn a meinweoedd eraill) sy'n dod o grwyn anifeiliaid buchol a gigyddir yn y Deyrnas Unedig ac y bwriedir i bobl ei fwyta yn y Deyrnas Unedig. Bydd y gwaharddiad ar allforio colagen o'r fath yn parhau mewn grym. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) 1999 (OS 1999/1103), fel y'u diwygiwyd, er mwyn galluogi'r defnydd o colagen mewn cynhyrchion sydd i'w bwyta gan bobl yn y DU. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu amodau o ran diogelwch bwyd ar gyfer cynhyrchu colagen o'r fath.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru (45 munud)**

_

## Dydd Mercher 25 Mai 2005

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Ad Hoc ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus (90 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**

_

## Dydd Mawrth 7 Mehefin 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **60 munud wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Addysg 2005 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

_

## Dydd Mercher 8 Mehefin 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**
- **Cynnig/cynigion i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Rhyddid**

**Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (15 munud)**

- **Dadl ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y polisi o uno'r CCNCau (105 munud)**

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 14 Mehefin 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at adfywio cymunedol (30 munud)**

  Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon adolygiad polisi ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol. Mae'r adroddiad yn ystyried

- y cysylltiadau rhwng y polisi ar y celfyddydau, y polisi chwaraeon a'r polisi ar adfywio cymunedol;
- sut y gall prosiectau celfyddydol a phrosiectau chwaraeon lleol gyfrannu at adfywio cymunedol;
- systemau cefnogi ar gyfer prosiectau celfyddydol a phrosiectau chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol;
- yr arfer gorau ar gyfer prosiectau celfyddydol a phrosiectau chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol;

- argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynhaliwyd dadl ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ebrill 2005.

- **45 munud wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

## Dydd Mercher 15 Mehefin 2005

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodir yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 (NNDM 2453) a gyflwynwyd gan Christine Chapman AC (60 munud)**

  Mae'r cynnig hwn yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi mewn egwyddor is-ddeddfwriaeth a fyddai'n mynnu bod awdurdodau lleol, fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, yn gwneud cyfraniad blynyddol i Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant y plant sydd dan eu gofal.

- **Dadl fer (30 munud)**